

Treftadaeth yn ein hysgolion



ADNODD AR GYFER ATHRAWON CYFNOD ALLWEDDOL 2

Treftadaeth ein disgyblion – yn rhan o bob un ohonynt

Ariannwyd y prosiect a'r adnodd hwn gan gynllun LEADER a chafodd ei weithredu gan Ganolfan Tywi, Llandeilo ar y cyd ag Ymgynghoriaeth Sbectrwm.

Bwriad y prosiect oedd darparu adnoddau ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2 i gefnogi'r gwaith o addysgu disgyblion am eu treftadaeth nhw eu hunain gan gynnwys cymeriadau a digwyddiadau hanesyddol yng Nghymru ynghyd â threftadaeth adeiledig yn eu hardal leol.

Cyniga'r adnodd ar ein gwefan ystod o adnoddau addysgu cyffredinol y gallir eu defnyddio a'u haddasu ar gyfer eich themâu lleol. Mae'n cynnwys pwerbwyntiau y gallid eu defnyddio ar lawr y dosbarth, ynghyd â syniadau ar gyfer gweithgareddau, llinellau amser i'w hargraffu, cynlluniau gwersi a nodiadau cefndirol i athrawon.

Ymchwilio i adeiladau yn eich ardal leol

Cymeriadau a digwyddiadau hanesyddol yng Nghymru

Ceir hefyd nifer o [astudiaethau achos](#) gyda deg o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin fel ysbardun i athrawon ledled Cymru.

Sut i ddefnyddio: Symudwch i lawr y tudalennau neu cliciwch ar y saethau < > Cliciwch ar y [dolenni](#) er mwyn lawrlwytho'r adnoddau.



Ysbrydolwch eich disgyblion i ddysgu mwy am yr adeiladau hanesyddol yn eich ardal leol

Rydym mor ffodus bod gennym gymaint o adeiladau hanesyddol o gestyll mawreddog at dyddynod a bythynnod yn ein trefi a'n pentrefi ledled Cymru. Wrth fynd heibio iddynt, efallai'n ddyddiol, hawdd yw eu cymryd yn ganiataol ar brydiau yn ein bywydau prysur.

Er mwyn gwarchod ein treftadaeth adeiledig gwerthfawr, mae'n bwysig bod disgyblion yn dysgu am y storïau sydd gan yr adeiladau o'n cwmpas I i ddweud wrthym am y dyddiau a fu.

Adnoddau cyffredinol a geir yma sy'n galluogi athrawon i'w newid fel y bo angen er mwyn eu gwneud yn addas ar gyfer eich ardal chi.

Cliciwch ar y dolenni isod i weld yr adnoddau neu sgroliwch i lawr i ddysgu mwy am yr adnodd.



> Llinell Amser

Dyma linell amser, mewn dwy fformat wahanol sy'n dangos sut mae adeiladau yng Nghymru wedi newid o'r cyfnod Paleolithig hyd at adeilad eco yn y 21ain Ganrif.



> Galeri

Yma cewch lluniau o'r gweithgareddau, adeiladau wahanol, ffenestri a drysau a deunyddiau toeon a waliau.



> Adnoddau Addysgu

Yma cewch gynlluniau gwersi, taflenni gwaith a syniadau am weithgareddau y gellir eu defnyddio i ddangos fel mae adeiladau wedi datblygu dros y canrifoedd.

Ysbrydolwch eich disgyblion wrth ddysgu mwy am ddigwyddiadau a chymeriadau allweddol hanes Cymru.

Bu erioed amser pwysicach i blant Cymru i ddysgu am eu treftadaeth gan ddatblygu eu dealltwriaeth o gymeriadau a digwyddiadau sydd wedi lliwio hanes ein gwlad dros y canrifoedd. Wrth wneud hyn gellir datblygu eu hymdeimlad o berthyn, o falchder ac hunaniaeth wrth iddynt ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n cyfrannu tuag at eu cymunedau yn y dyfodol. .

Cynlluniwyd y rhan yma o'r adnodd er mwyn hwyluso'r gwaith i athrawon ysgolion cynradd wrth ymdrin, nid yn unig â threftadaeth Cymru gyfan, ond i addasu'r adnoddau er mwyn dathlu cymeriadau a digwyddiadau sydd yn rhan bwysig o'ch ardal chi hefyd. Heb os mae gan bob pentref, tref, dinas a sir eu storïau arbennig eu hun i'w hadrodd.

Cliciwch ar y dolenni isod.



> Llinell Amser

Dyma linell amser, mewn dwy fformat wahanol, sy'n cynnwys rhai o ddigwyddiadau a chymeriadau Cymru dros y canrifoedd. Beth am ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at y llinell am eich hardal leol chi?



> Adnoddau Addysgu

Yma cewch gynlluniau gwersi, taflenni gwaith a syniadau am weithgareddau a phwerbwytiau y gellir eu defnyddio. gall yr adnoddau gael eu haddasu hefyd ar gyfer addysgu am eich hanes diwylliannol lleol chi.

Astudiaethau achos

Dros gyfnod o flwyddyn mae deg o ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin wedi bod yn rhan o'r Prosiect Treftadaeth Ysgolion

Trwy ystod o ddigwyddiadau, ail-greu, gweithio gydag arlunwyr, teithiau hanesyddol a drama, mae disgyblion, athrawon a chymunedau ehangach yr ysgolion wedi mwynhau dysgu am eu treftadaeth adeiledig a diwylliannol.

O fewn y tair astudiaeth achos, ceir cyflwyniad, oriel luniau o ffotograffau a fideo yn ogystal ag adran Adnoddau Athrawon sydd yn cynnwys nodiadau cefndirol, cynlluniau gwersi a thafleuni gwaith, syniadau am weithgareddau a phwerbwyt.

Gall athrawon naill ai ddefnyddio'r un thema os yn addas neu ddefnyddio'r astudiaethau achos fel ysbrodoliaeth i greu prosiectau tebyg yn eich ardal leol.




Syr William Paxton yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Er mwyn dod â rhan o'i hanes yn fyw i ddisgyblion **Ysgol Gynradd Gymunedol Nantgaredig** ac **Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanddarog**, teithiodd disgyblion yn ôl mewn amser at ddiwedd y 18fed Ganrif, gan wisgo fel gweision a morwynion o'r cyfnod er mwyn dysgu am gymeriad lleol a'i gyfraniad i'r ardal.

Wrth gyrraedd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, croesawyd disgyblion a staff gan 'Syr William Paxton' ei hun a bortreadwyd gan yr actor proffesiynol Dion Davies. Mewn gweithdy drama rhyngweithiol dysgodd y disgyblion am Syr William Paxton, ei ystâd ac un o dai harddaf yr ardal yn ei amser, Middleton Hall. Gellir gweld nifer o olion Paxton wrth grwydo drwy'r gerddi hyd at y dydd heddiw, e.e. yr ardd wal ddwbl, adfeilion y Tŷ Eirin, y stablau, Tŷ Principality – lle cysgai'r gweithwyr ac ôl sylfeini Middleton Hall a oedd yng nghyfnod Paxton yn cael ei ystyried fel un o'r tai harddaf yn y de-orllewin.

Lansiwyd ein prosiect wrth i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ddechrau eu prosiect cyffrous, 'Adfywiad Paradwys' gan ddechrau adfywio'r tirlun a grëwyd gan Paxton ar ddiwedd y 18fed Ganrif a dechrau'r 19eg Ganrif.



Mwy o fanylion am yr astudiaeth achos hon gyda disgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Nantgaredig ac Ysgol Wirfoddol Llanddarog wrth iddynt ymweld â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru gan ddysgu am Syr William Paxton.

Mwynhewch luniau a fideo o'r digwyddiadau.

> Adnoddau Addysgu

Yma cewch gefndir Paxton a Middleton Hall sef safle Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru heddiw, cynlluniau gwersi, syniadau am weithgareddau, taflenni gwaith a phwerbwyt o luniau defnyddiol.

Beth ddigwyddodd?

Bron ymhob cwr o Gymru a thu hwnt, ceir cymeriadau hanesyddol sydd wedi lliwio ein hardal leol ac mewn nifer o achosion gellir gweld y dystiolaeth honno hyd at y dydd heddiw. Er mwyn i ni fedru meithrin ymdeimlad o berthyn, o le ac o falchder ynghyd â dealltwriaeth a gwybodaeth gynyddol i'n disgyblion, pa le gwell i ddechrau na gyda'r ardal leol.

Ar gyfer yr astudiaeth achos yma, portreadwyd Syr William Paxton mewn drama er mwyn i ddisgyblion 4 a 5 Ysgol Gynradd Gymunedol Nantgaredig a disgyblion Blwyddyn 3 a 4 Ysgol Wirfoddol Llanddarog i ddysgu mwy am y cymeriad lliwgar a dylanwadol yma mewn ffordd hwylus a gweithredol. Roedd y mwyafrif o'r disgyblion yn ymwybodol o Dŵr Paxton, adeilad trawiadol ar




fryn yn Nyffryn Tywi, a adeiladwyd gan Paxton er cof am ei arwr, Y Llengesydd Horatio Nelson. Roedd bron pawb wedi ymweld â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ond bach iawn oeddent yn ei wybod am fywyd y gŵr a arferai fyw ar yr ystâd ac oeddyn yn gyfrifol am yflenwad dŵr Caerfyrddin a Ddinbych y Pysgod.

Er mwyn bod y disgyblion a'r staff yn teimlo'n rhan annatod o'r cynhyrchiad o'r cychwyn cyntaf, cynrychiolwyd gweision a morwynion Paxton gan un grŵp o blant, a gwisgwyd rhai mewn dillad i gynrychioli teulu crand Mr David Williams, sef ffrind pennaf Paxton a'r gŵr oedd yn gyfrifol am ei gyflwyno i'r ardal.



Mae'r gweithdy yn dechrau wrth i 'Syr William Paxton' gyflwyno'i ymwelwyr i baentiadau â gomisynodd William Horner i'w paentio yn 1815. Yn ddiddorol, mae'r paentiadau yma, erbyn hyn yn cael eu defnyddio i adfywio tirlun Paxton ar safle'r gerddi.



> Hanes y digwyddiad

> Adnoddau Addysgu

Beth ddigwyddodd?

(parhad)

Yn dilyn hyn, arweinir y disgyblion ar daith gerdded o gwmpas y gerddi wrth iddynt ddysgu mwy am y cymeriad a'i syniadau arloesol. Tra yn yr ardd wal ddwbl, maent yn dysgu am angerdd Paxton i ymestyn tymor ei ffrwythau egsotig drwy greu hinsawdd arbennig yno. Mae'r disgyblion yn cael y cyfle i flasgu eirin gwlanog yr arferai Paxton dyfu yn y Tŷ Eirin yn y gorffennol.



Mae'r daith yn parhau heibio i'r stablau, Tŷ Principality, sef cartref y gweision ac yn dirwyn i ben ar sylfeini Middleton Hall, lle mae props wedi cael eu gosod ymhob ystafell er mwyn portreadu'r adeilad fel yr edrychai yn nydd Paxton. Wrth i Paxton eu harwain o gwmpas y tŷ yn disgrifio'r ystafelloedd, anogir y disgyblion i ddefnyddio eu dychymyg er mwyn teimlo a deall



godidogrwydd ei gartref yr oedd mor falch ohono.

I orffen, mae Paxton yn omisiynu ei weision a'i westeion i fraslunio'r tirlun gan gynnwys Tŵr Paxton ar y gorwel.

Cynlluniwyd y profiad gweithredol hwn ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 er mwyn dod â chymeriad lleol yn fyw yn hytrach na chyflwyno ffeithiau ar lawr y dosbarth yn unig.



> Hanes y digwyddiad

> Adnoddau Addysgu

Galeri




Morwyn yn gweini eirin gwlanog tu allan adfeilion Tŷ Eirin Paxton.



Mr a Mrs David Williams, ffindiau Paxton yn mwynhau'r lluniaeth.



Yr ardd wal ddwbl a grëwyd gan Paxton ei hun.




Hysbysiad o arwerthiant Middleton Hall yn dilyn marwolaeth Siry William Paxton ar Ddydd Marth 10fed o Chwefror 1824.



> Video



> Galeri



> Adnoddau Addysgu

Y Celtiaid, y Rhufeiniaid, y porthmyn a mwy

Gan weithio gyda disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 yn **Ysgol Gymraeg Dewi Sant**, Llandeilo, y bwriad oedd i roi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'u hanes lleol.

O gyfnod y Celtiaid a'r Rhufeiniaid ar Garn Goch, sef caer Oes yr Haearn ger Bethlehem, tua 4 milltir o'r ysgol, at drefnadaeth adeiledig tref Llandeilo, aeth y disgyblion ati i ystyried pa storïau sydd gan safleoedd hanes ac adeiladau i ddweud wrthom.




> Adnoddau Addysgu

Yn yr adran hon ceir nodiadau cefndirol i athrawon, cynlluniau gwersi ac adnoddau.

Mwy o fanylion

Ein hysgogiad ar gyfer y gwaith yma oedd annog y disgyblion i edrych yn fanwl ar safleoedd ac adeiladau hanesyddol gan ystyried y storïau sydd ganddynt i ddweud wrthom ac i ofyn nifer o gwestiynau yn eu cylch. Pam cafodd safle neu adeilad ei adeiladu? Pwy oedd yn byw yno? Sut fywyd oedd ganddynt? Sut fath o le oedd ein tref yn y gorffennol? Sut mae'n cymharu â'r hyn welwn erbyn heddiw? Yn aml yn ein bywydau prysur gallwn rhuthro heibio'r un adeiladau yn ddyddiol heb wir ystyried eu harwyddocâd a'r hyn allwn ddysgu oddi wrthynt am ein cyndeidiau.

Gan weithio gyda 45 o ddisgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 o Ysgol Gymraeg Teilo Sant, dechreuodd y prosiect drwy fynd â grwpiau o tua 12 disgybl



ar y tro mewn bws mini (nid yw'r heol yn addas ar gyfer bysiau'n fwy) i ymweld â heneb Garn Goch, nepell o bentref Bethlehem a thua 4 milltir o dref Landeilo. Wrth gerdded ar hyd y llwybr sy'n arwain o'r bwrdd gwybodaeth, gellir cyrraedd y Garn Fach mewn tua 20 munud. Ar y ffordd yno gellir gweld cofeb Gwynfor Evans wedi'i leoli ar un o'i hoff



llwybrau cerdded. Gellir cyrraedd y Garn Fawr ar y copa mewn tua 10-15 munud arall ar hyd y llwybr o'r Garn Fach.

Yma, gwisgwyd y disgyblion mewn dillad Celtiaidd gan roi paent glas ar eu hwynebau yn ôl arfer y Celtiaid wrth frwydro. Gwisgai eraill wisgoedd Rhufeinig. Mae'r



gwisgoedd hyn ar gael i ysgolion i'w benthg yn rhad ac am ddim o Amgueddfa Caerfyrddin.

Ar yr achlysur hon, bu Cefin Campbell o Ymghynghorieth Sbectrwm a phartner yn y Prosiect Treftadaeth Ysgolion, yn annerch y disgyblion ar gopa Garn Goch Rhoddwyd gipolwg iddynt o fywyd y



> Mwy o fanylion

> Adnoddau Addysgu

Mwy o fanylion (parhad)

Celtiaid a drigai yma yn y gorffennol gan ystyried eu cartrefi, ei gwaith wrth ffermio, hela, coginio ac amddiffyn y gaer. Gofynnwyd iddynt gau eu llygaid gan ddefnyddio eu dychymyg a'u synhwyrâu wrth feddwl am y synnau, yr arogleon a'r golygfeydd oedd yno dwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Yn ôl ar dir yr ysgol, roedd grwpiau eraill o ddisgyblion yn gweithio gyda



Danni Lee o gwmni Arts for Space er mwyn adeiladu tŷ crwn Celtaidd eu hunain gan ddefnyddio defnyddiau a thechnegau traddodiadol. Defnyddiwyd helyg i greu fframwaith yr adeilad a phlethwaith a chlai i greu waliau cyn defnyddio corswellt ar gyfer y to.

Ar ddiwrnod arall, aethpwyd â'r disgyblion ar daith hanesyddol o gwmpas tref Llandeilo o dan arwiniad Sarah Rees o Ymddiriedolaeth Archaeoleg Dyfed. Er mwyn annog y disgyblion i edrych yn graff ar yr adeiladau yn y dref, ac efallai mewn ffordd wahanol i'r arfer. Rhoddwyd daflen yn arddangos lluniau manwl o nodweddion adeiledig iddynt i'w darganfod. (Gweler Adnoddau Addysgu).

Ceir manylion llawn am y daith yn yr adran Adnoddau Addysgu.



> Mwy o fanylion

> Adnoddau Addysgu

Galeri



> Video



> Galeri



> Adnoddau Addysgu

Ail greu golygfa o Streic y Glöwyr 1984-85

Bu Blynnyddoedd 5 a 6 Ysgol y Bedol yn ymdrin â thema 'Y Diwydiant Glo.' Trefnwyd ymweliad â Phwll Mawr, Blaenafon fel 'sbardun ar gyfer y prosiect a bu'r disgyblion yn ystyried sut roedd pentref Garnant ynghyd â phentrefi eraill yr ardal ddatblygu o ganlyniad i'r ffyniant yn y diwydiant glo a thunplât yn yr ardal. Byddai'r prosiect yn gorffen gyda digwyddiad byddai'n ail greu golygfa oedd yn ddigon cyffredin yn ystod Streic y Glöwyr 1984-85. Aeth disgyblion ati i holi teulu ac aelodau o'r gymuned ynghlŷn â'u hatgofion hwythau o'r cyfnod.




Cafodd y disgyblion y cyfle i wrando ac i holi ymwelwyr a fu'n cyflawni swyddi allweddol a dylanwadol yn ystod yr adeg gythryblus hon yn hanes yr ardal leol. Cawson gyfle gwerthfawr

hefyd i edrych ar nifer o bosteri ac erthyglau papur newydd.

Cynhaliwyd diwrnod o weithdai er mwyn rhoi'r cyfle i'r disgyblion gyfrannu at baratodau'r ail-greu gan gynnwys creu props, mynychu clyweliadau ar gyfer y ddrama fer a ysgrifennwyd gan Mr Cefin Campbell, Ymgynghoriaeh Sbectrwm ac a gyfarwyddwyd gan yr actor Dafydd Hywel yn ogystal am ddeall mwy effaith y streic ar yr ardal leol.

Ffilmiwyd y diwrnod ei hun yn ogystal â'r paratodau gan Tinopolis ar gyfer rhaglen 'Heno' ar S4C.



> Adnoddau Addysgu

Mwy o fanylion

Tra effeithiwyd glowyr a'u teuluoedd ledled Prydain yn ystod Streic y Glowyr 1984-85, 90 o ddisgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 Ysgol y Bedol yn y Garnant yn ystyried effeithiau'r streic ar aelodau o'u teuluoedd a'r gymuned ehangach. Gan ddechrau thema'r hanner tymor gan ymweliad â Phwll Mawr Blaenafon er mwyn tanio diddordeb y disgyblion o'r cychwyn cyntaf.

Ystyriwyd datblygiad pentref Garnant a phentrefi eraill y cwm o ganlyniad i'r Chwyldro Diwydiannol a dechrau deall y rhesymau yr adeiladwyd cannoedd o dai teras sydd yn ffurfio rhan o'u treftadaeth adeiledig hyd at heddiw.

Yn ystod gweithdy prynhawn, bu'r ysgol yn ffodus iawn i fedru croesawu tri o ymwelwyr i annerch y plant a'r athrawon wrth rannu



eu profiadau o'r streic. Cafwyd cyflwyniad gan Mr Hywel Francis, hanesydd a gwleidydd yn y Blaid Lafur rhwng 2001 a 2015 yn ogystal â bod yn arbenigwr ac yn awdur nifer o lyfrau ar y pwnc. (Gweler Adnoddau Addysgu).

Bu Mr Mike Reynolds, a oedd yn arweinydd Undeb Cenedlaethol



y Glowyr yn lleol yn sôn am ei brofiadau wrth gasglu arian ar gyfer teuluoedd y glowyr yn ardal Brixton, Llundain lle'r oedd gan y trigolion gydymdeimlad mawr tuag at dranc y glowyr.

Daeth Mr Cellan Williams, Cadeirydd y Llywodraethwyr i rannu ei atgofion fel bachgen ifanc

yn tyfu lan yn ystod y streic. Ar ddiwrnod yr ail-greu, gwelwyd disgyblion yn gwisgo mewn dillad yn adlewyrchu ffasiynau'r 80au, rhai mewn gwisgoedd heddlu ac eraill wedi ei gwisgo fel heddlu terfysg. Dechreuodd yr orymdaith ar Y Twyn, tua 15 munud o daith cerdded o'r ysgol a gydag aelodau o Fand Arian Crwbin yn eu harwain,



> Mwy o fanylion

> Adnoddau Addysgu

Mwy o fanylion

gorymdeithiodd y disgyblion ar hyd y strydoedd yn ôl tuag at gyfeiriad yr ysgol gan chwifio placardiau wrth weiddi a galw am gyfiawnder. Y diwrnod cynt, rhoddwyd llythyr trwy bob drws ar y stryd a braf oedd gweld cymaint o drigolion yr ardal ar hyd y ffordd wrth rannu'r yn y profiad emosiynol hwn.



Ar ôl dychwelyd i dir yr ysgol, perfformiwyd drama yn cynnwys tair golygfa, yn y cyntaf welwn ŵr a gwraig yn dadlau oherwydd diffyg arian. Mae'r ail yn dangos mam a'r gwrthdaro rhwng dau fab, un yn blismon a'r llall yn löwr. Yn y drydedd olygfa, gwelwn ferch yn annerch torf mewn rali a'r gwrthdaro rhwng yr heddlu wrth i fws geisio croesi'r llinell piced yn cario'r 'scabs.' (Gweler y sgript yn Adnoddau Addysgu)



> Mwy o fanylion

> Adnoddau Addysgu

Galeri



> Galeri

> Adnoddau Addysgu

Y diwydiant gwlân a phentref Drefach Felindre

Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 Ysgol Wirfoddol Penboyr yn gweithio ar brosiect treftadaeth yn ymwneud â phwysigrwydd a dylanwad y diwydiant gwlân ar eu hardal leol a sut y gwnaeth llwyddiant y diwydiant gwlân yn ail hanner y 19eg Ganrif arwain at ddatblygiad eu pentref.

I ddechrau bu'r disgyblion yn ymweld ag Amgueddfa Wlân Cymru yn Nhrefach Felindre er mwyn deall y broses o'r cnu i'r brethyn. Dysgont pam y daeth Dyffryn Teifi yn un o'r llefydd mwyaf blaenllaw o fewn y diwydiant gwlân ym Mhrydain – o ddiolli'r gwlân, chwalu, cribo, nyddu, gwehyddu i'w bannu a'i orffen.

Bu Cefin Campbell o Ymgynghoriaeth Sbectrwm, yn tywys y disgyblion ar daith treftadaeth o gwmpas pentref Drefach Felindre gan ymweld â safleoedd melinau gwlân y gorffennol ac edrych ar dai a gerddi meistri'r melinau yn ogystal â bythynnod y gweithwyr. Edrychwyd ac ystyriwyd nifer o adeiladau yr oedd y disgyblion yn mynd heibio iddynt yn ddyddiol ond bwriad y profiad oedd i'w hannog i'w werthfawrogi treftadaeth adeiledig werthfawr sydd ganddynt o fewn eu milltir sgwâr.



> Adnoddau Addysgu

Hanes y Fro, Pencader a'r cylch

Dechreuodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 Ysgol Gymunedol Cae'r Felin drwy greu map meddwl er mwyn ystyried beth oeddent yn ei wybod yn barod am eu hanes lleol gan gynnwys adeiladau, cymeriadau a digwyddiadau.

Yn dilyn hyn, aeth y plant ar daith hanesyddol o gwmpas y pentref gan dynnu lluniau a thrafod sut oedd y pentref wedi newid dros y blynyddoedd. (Ceir manylion y daith yn yr adran adnoddau). Bu'r disgyblion yn ystyried effaith dyfodiad y rheilffordd i Bencader pentref a phwysigrwydd y diwydiant gwlân ar yr ardal.

Bu'r disgyblion yn ystyried arwyddocâd y rhod ddŵr fel logo'r ysgol ac yn braslunio'r felin flawd sy'n ffinio cae chwarae'r ysgol ond sydd bellach yn dŷ preifat. Bu crin dipyn o gyffro wrth iddynt ddysgu am helyntion Merched Beca a gafwyd crin effaith ar yr ardal.

Fel dathliad o'r hanes gwerthfawr yma o fewn eu milltir sgwâr, cafodd y disgyblion gyfle i weithio



gyda'r arlunwraig dalentog, Rhiannon Roberts er mwyn creu darn o gelf i'w arddangos yn nerbynfa'r ysgol i'w rannu gyda'r ysgol a'r gymuned gyfan.

Twm Siôn Cati

Mae hanes Twm Siôn Cati yn apelio'n fawr at blant o bob oedran. Mae'r storïau di-ri amdano'n dwyn arian ac eiddo wrth bobl cyfoethog a'u rhoi i'r tlawd ac anghennus wedi tanio dychymyg cenedlaethau o blant ac mae ei gysylltiad â Dyffryn Tywi yn ei wneud yn destun perffaith ar gyfer sioe i blant cynradd.

Cyflwynwyd y sioe mewn pedair ysgol gynradd rhwng 8-10fed Ionawr, 2019, sef ysgolion Rhys Prichard (Llanymddyfri), Llangadog, Ffair-fach a Chwrt Henri. Daeth tua 200 o blant o ddosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 i weld y cyflwyniad a chafwyd ymateb da iawn ym mhob man.

Er mwyn gwahaniaethu rhwng yr hanes go iawn a'r storïau mytholegol sydd wedi tyfu o gwmpas Robin Hood Cymru, penderfynwyd cyflwyno'r sioe mewn ffordd ychydig bach yn wahanol. Yr hyn a gafwyd oedd un person yn gweithredu fel llefarydd ac yn cyflwyno ffeithiau hanesyddol amdano a'r llall yn



actio cymeriad Twm ac yn ail-greu rhai o'i anturiaethau mwyaf beiddgar a chofiadwy. Gyda'r cyfuniad hwn o ddulliau llwyddwyd i greu elfennau o'r dwys a'r digri, y difrifol a'r doniol.

Mae'r sioe yn dechrau gyda bachgen ysgol o'r enw Twm Siôn, sydd wedi clywed bod rhywun o'r un enw ag ef wedi bod yn lleidr pen ffordd yn ardal Tregaron nôl yn y 16eg ganrif a'i fod yn arfer cuddio mewn ogof ym mhen uchaf Dyffryn Tywi! Wrth gwrs, mae e'n awyddus i wybod mwy am y cymeriad diddorol a lliwgar hwn.

Ar y pwynt hwn mae'r llefarydd yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ffeithiol am Twm – er enghraifft, pryd a ble cafodd ei eni a pha fath o gymdeithas oedd yn bodoli yng Nghymru bryd hynny.

Yn dilyn hyn, mae Twm yn ail-greu rhai o'r digwyddiadau mwyaf doniol sy'n gysylltiedeig â'i arwr, lle mae e'n twyllo pwysigion yr ardal fel Jasper Tyler ac Elis Richards o'u harian a'u heiddo. Mae'r plant wrth eu bodd gyda'r rhialtwch sy'n digwydd o'u cwmpas wrth i ambell blentyn ac athro gymryd rhan yn y golygfeydd!

Tuag at y diwedd mae mwy o ffeithiau hanesyddol yn cael eu cyflwyno am Twm a sut y gwnaeth ymbarchuso yn ei henaint drwy briodi merch Syr John Price o Aberhonddu a wedyn dod yn Siryf Sir Gaerfyrddin, Ynad Heddwch a hanesydd pwysig.

Mae'r sioe yn gorffen gyda'r bachgen ysgol yn rhyfeddu ac yn falch bod cymeriad oedd yn rhannu'r un enw ag ef wedi llwyddo troi o fod yn ddihiryn oedd bron â chael ei grogi am ddwyn i fod yn ddyn parchus a chyfoethog. Rhyfedd o fyd!

O'r dechrau i'r diwedd mae'r sioe yn para tua awr ond gan fod deunyddiau wedi eu paratoi mae posibilrwydd pe bai amser yn caniatáu y gallai'r plant gynnal gweithdy am ryw hanner awr arall er mwyn rhoi cyfle iddynt ymchwilio ymhellach i hanes Twm a'i helyntion.

> Adnoddau Addysgu